# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 19
IONAWR 2009

Mae hi'n flwyddyn newydd unwaith eto ac wrth groesi o'r hen i'r newydd y mae'n ddigon posib y gwnaeth nifer ohonom addunedau ar gyfer 2009. Efallai y bydd ambell un ohonom am gadw'n heini, dysgu iaith newydd neu ddarllen yn ehangach. Ond p'un a wnaethom addunedau blwyddyn newydd ai peidio, y mae mis Ionawr yn ddechreuad newydd i bawb ohonom ac yn gyfnod pan fyddwn yn edrych ymlaen i'r dyfodol ac yn gobeithio am y pethau gorau.

Ond beth yw'r gobaith hwn? Ai rhyw fath o ddymuniad yn unig ydyw? Ai un o addewidion gwag yr unfed ganrif ar hugain? Tybed a oes mwy i'r gair na hyn? Fel y gwyddom y mae'r Testament Newydd yn llawn o gyfeiriadau at obaith. Meddai Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid: "Llawenhewch mewn gobaith", ac yn ei lythyr cyntaf at y Corinithiaid: "Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn yn aros." Ac meddai Pedr yntau yn ei lythyr cyntaf: "O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw". Y mae gobaith y Cristion yn adlewyrchiad o'n hyder yng ngofal Duw ac yn rhan anatod o'n bywydau fel Cristnogion. Nid yn unig y byddwn yn gobeithio am y pethau angenrheidiol ar gyfer ein bywydau bob dydd megis iechyd, bwyd, dŵr a lloches ond y mae hefyd yn golygu y byddwn yn llwyddo i feithrin yr hyder mewnol a thawelwch meddwl sydd yn dod o obeithio yn Nuw. A pha beth bynnag a ddaw i'n rhan, ni fydd modd sathru ar y gobaith hwn na'i ddifa. Yn union fel goleuni dwyfol Duw, pery ei obaith i'n nerthu a'n cynorthwyo yn wyneb holl anawsterau bywyd.

Ac y mae'n bur debyg y daw rhai sefyllfaoedd i'n cyfarfod eleni a fydd yn profi ein ffydd, ein cariad a'n hamynedd i'r eithaf fel y byddwn yn barod i roi'r gorau i unrhyw obaith a oedd gennym ar gychwyn y flwyddyn. Ond fel y mae William Barclay yn ein hatgoffa: nid oes unrhyw sefyllfa cwbl anobeithiol mewn bywyd, dim ond pobl sydd wedi rhoi'r gorau i obeithio. Medddai: "There are no hopeless situations in life; there are only men who have grown hopeless about them. And there can never be any such thing as a hopeless Christian". Na! Nid oes y fath berson â Christion anobeithiol! Byth!

Felly wrth inni gychwyn ar ein taith yn 2009 daliwn yn dynn yn ein holl obeithion am y flwyddyn newydd gan sicrhau bod gobaith y Crist yn gydymaith agos inni gan mai ar ei addewid ef y pwyswn pan fydd ein haddewidion ninnau ac addewidion y byd yn chwalu'n deilchion o'n cwmpas.

Saif ein gobaith yn yr Iesu,
Brenin nef, goleuni'r byd;
ei ddoethineb a'i ddaioni
a ffrwythlona'n gwaith i gyd;
llawenhawn, drwyddo cawn
holl adnoddau Duw yn llawn.

( J. D. Vernon Lewis )

Blwyddyn Newydd Dda a llawenhawn mewn gobaith.
Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

## CALENDR MIS IONAWR 2009

| **Cyhoeddwr y Mis** | **Eirian Reynolds** | |
|---|---|---|
| 4 Ionawr<br>2.30 | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y cymun Rhiannon Humphreys & Carwen Fychan |
| 11 Ionawr<br>10.30 | Oedfa Deuluol: Gweinidog | |
| 18 Ionawr<br>10.30<br>2.30<br>6.00 | Clwb Sul<br>Oedfa Bregeth: Gweinidog<br>Seion, Stryd y Popty : Oedfa Unedig yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol. Pregethir gan y Parchedig Marc Owen, Ysgrifennydd Bywyd Eglwys Undeb Bedyddwyr Cymru | Yng ngofal y te ar ôl yr oedfa: Rhiannon |
| 25 Ionawr<br>10.30 | Clwb Sul a Clwb Sul bach<br>Oedfa Bregeth: Y Parchedig Peter Thomas | |
| 1 Chwefror<br>10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y cymun: Sue Hughes |

### I'CH DYDDIADUR

**5 Ionawr Dydd Llun :** Cinio bara caws Cymorth Cristnogol yng Nghanolfan San Paul (dan ofal Eglwys Gwenffrewi) 12.00-1.30.
**7 Ionawr** : Cymun Canol Dydd : Bethel : 12.00
**14 & 28 Ionawr :** Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
**21 Ionawr :** Cymdeithas Bethel yn Ymweld â Chymdeithas y Morfa. Croeso cynnes.
**21 Ionawr :** Cyfarfod Cymorth Cristnogol : Canolfan San Paul
**21 Ionawr Nos Fercher :** Mary Lloyd Jones yn trafod 'Dathlu'r gair mewn delweddau': Cymdeithas y Penrhyn am 7.30 yn Festri Horeb.
**27 Ionawr Nos Fawrth** : Cwrdd gweddi misol yn festri Horeb 7.30.
**2 Chwefror Dydd Llun** : Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol ym Methel : 12.00-1.30
**Rhaghysbyseb** : **5 Gorffennaf** : Byddwn yn cynnal oedfa yng nghapel Salem, Llanbedr lle peintiwyd y llun enwog "Salem" gan Curnow Vosper. Cawn hanes y llun a'r capel yn ystod ein hymweliad.

### LLOFFION

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu y ddiweddar Chwaer Megan Evans, Cefnllwyd a fu farw ar y 12 Rhagfyr.

### Oedfa Nadolig y Plant

Diolch i bawb a weithiodd mor galed ar gyfer Oedfa Nadolig y Plant. Cawsom fwynhad a bendith wrth deithio i Fethlehem yn eu cwmni. Diolch yn fawr hefyd i Sion Corn am alw heibio. Braf oedd cael ei gwmni yntau hefyd.

**Llongyfarchiadau** i Gôr ABC a'i harweinydd, Angharad Fychan, ar eu cyngerdd "Dilyn y Sêr" yn y Morlan ym mis Rhagfyr.

**Croeso i'r Oedfaon : Os nad ydych wedi bod mewn oedfa ers tro, beth am droi i fewn atom? Mae yna groeso cynnes yn eich disgwyl ac fe fyddem yn falch o'ch gweld bob amser.**